
# Anifeiliaid a Chynefinoedd

// Gemau a Gweithgareddau



## SAFFARI BWYSTFILOD MÂN

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i archwilio gwahanol gynefinoedd trwy wahanol bersbectif ac i raddau gwahanol.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Darnau o linyn hyd at 1 metr o hyd

Chwyddwydrau

### Beth i'w wneud...

1. Rhoi un darn o linyn ac un chwyddwydr i bob dysgwr.
2. Gofyn i'r dysgwyr roi llinyn dros yr ardal fwyaf diddorol maen nhw'n gallu dod o hyd iddo.
3. Gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio'r chwyddwydr ac esgus eu bod nhw mor fach â chwilen grwydro lwyd.
4. Annog y dysgwyr i symud y chwyddwydr yn araf iawn ar hyd y 'ffordd saffari' sydd wedi'i wneud allan o linyn er mwyn esgus eu bod yn chwilen grwydro lwyd yn teithio ar hyd y llwybr.
5. Defnyddio cwestiynau procio i ysgogi'r dychymyg. Gofyn iddynt ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei weld. Ble gallent fynd? Beth allent ei gyfarfod ar hyd y ffordd. Sut deimlad yw bod yn chwilen grwydro lwyd a gweld yr ardal o'i safbwynt nhw?

**Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy ddefnyddio'r profiad i wneud gwaith ysgrifennu creadigol, barddoni neu waith celf.**